Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Fedi 2018.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones Anwen Humphreys – Garndolbenmaen, Dafydd Thomas Gwenno Huws – Penmorfa, Richard Williams – Prenteg, Delyth Evans – Pentrefelin, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen – Golan. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

2 Ymddiheuriadau – Clifford Williams, Huw Pritchard, Maldwyn Owen, Eifion Williams, Gwilym Evans, Cynghorydd Stephen Churchman.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – neb.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 5/7/18.
John Jones yn datgan eu cywirdeb a Richard Parry yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Garndolbenmaen – llinellau melyn. Cynghorydd Anwen Humphreys am gysylltu gydag Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd, i drefnu cyfarfod safle gydag ef a gweddill Cynghorwyr Garndolbenmaen.

Pont y Traeth - Derbyniwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth mae'r enw swyddogol ar y bont yw Pont y Traeth. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn parhau gyda'u hymdrechion i brofi hyn.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Delyth Evans y cyfarfod.

7 Mynwentydd

Egwlys St Michael's Cwm Pennant - nid yw'r to wedi cael ei hatgyweirio. Clerc i gysylltu eto gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Carreg fedd angen ei ail osod - Clerc i gysylltu gyda Dylan Edwards.

Eglwys St Beuno Penmorfa - angen clirio mieri o ochr isaf y fynwent. Clerc wedi cysylltu gyda'r contractwr ac mae'n bwriadu gwneud hyn yr un amser a'r toriad gwair nesaf.

Mynwent Bethel - arolwg o'r fynwent wedi ei gwblhau ac mae tâp coch wedi ei osod o amgylch y beddau sydd angen sylw. Mae 2 bedd yn dangos hoel llygod mawr. Clerc i gysylltu gyda Swyddogion Difa Pla, Cyngor Gwynedd.

Sbwriel yn dal i gael ei adael yn y fynwent - cynnwys eto yn Adroddiad y Wasg.

Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â safon y gwaith torri gwair. Clerc i gysylltu gyda'r contractwyr i holi –

- faint o doriadau sydd wedi cael eu gwneud;
- angen torri ochor chwith y fynwent;
- gofyn iddynt dorri'r fynwent i gyd ar yr un amser.

Mynwent Prenteg

Gwair wedi eu dorri dwywaith.

[redacted]

[redacted]

[redacted] Eitem caeëdig.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Cyhoeddus o Ysgol Garndolbenmaen am Fryncir - Derbyniwyd e-bost gan Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy yn nodi ei fod wedi penodi contractwyr i atgyweirio'r hen gwlfer sydd yn rhedeg ar draws y llwybr. Gobeithir hefyd gosod giât cerddwyr newydd ar ddiwedd y trac os yw perchennog y giât yn rhoi caniatâd.

Llwybr Ysgol Golan - Clerc i holi pa bryd y bwriedir atgyweirio'r llwybr.

9 Adroddiad Pentrefi –

Pentrefelin

Treflys - cwynion fod tyfiant yn dod i'r lôn. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Garndolbenmaen

Pont Dolbenmaen i lawr yr afon - Himalayan Balsam yn tyfu ar lannau'r afon. Clerc i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Llifogydd Cae Llyn - adroddwyd fod ffosydd wedi cael eu hagor ar y tir cyfagos.

Bryncir

Gorsaf Bws Glandwyfach - Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad yw'r bws yn mynd i'r arosfan priodol wrth deithio o gyfeiriad Caernarfon. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Stephen Churchman.

10 Rhaglen graidd cyswllt ysgolion

Derbyniwyd llythyr gan Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd cymorth ariannol ar gyfer y rhaglen yn 2019/20.

11 Sedd Wag

Rhannwyd rhybudd o sedd wag achlysurol - ward Treflys - i'w harddangos ym mhob ward.

12 Gŵyl Rhif 6

Rhannwyd manylion rhif argyfwng y trefnwyr parcio.

13 Swyddfa Archwilio Cymru – astudiaethau effeithlonrwydd

Adroddodd y Clerc fod yr Archwilydd Cyffredinol, Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016 - 2017 yn bwriadu cynnal astudiaeth genedlaethol o wasanaethau archwilio mewnol mewn cynghorau lleol er mwyn ystyried y cwestiwn "A oes gan gynghorau

cymuned a thref yng Nghymru system archwilio fewnol ddigonol ac effeithiol ar waith"?

Mae Cyngor Cymuned Dolbenmaen wedi ei ddewis fel rhan o'r sampl o gynghorau a gaiff eu hadolygu. Cyflwynwyd copi o'r atebion a roddwyd i'r holiadur oedd yn ofynnol i'w gwblhau.

14 Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio

Derbyniwyd llythyr gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn y Cyngor Cymuned ar y gwasanaeth cynllunio. Clerc i ymateb i'r 2 gwestiwn.

15 Dogfennau'r Cyngor

Trosglwyddyd y dogfennau canlynol –

Archifdy Caernarfon

Cofnodion 24 Chwefror 1919 – 22 Chwefror 1933, 1 Ebrill 1974 – 5 Mawrth 1984, 30 Ebrill 1984 – 2 Ebrill 1992, Mai 1992 – 5 Mehefin 1997, 8 Gorffennaf 1997 – Medi 1997, Declaration of Acceptance of Office 1982 – 1987, Lloches Bws Penmorfa, Receipts and Payments 1963 – 1975.

Cwmni William George

Swyddfa Cofrestru Tir Mynwent Eglwys St Beuno
Lease David Pugh Davies a Kathryn Davies
Lloches Bws Pentrefelin
Cae Chwarae Penmorfa

16 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Rhybudd cau ffordd Dolwgan Garndolbenmaen 10/9/18. Clerc i gysylltu i gwyno am safon y gwaith o dorri canghennau
Adran Briffyrdd rhaglen waith mis Medi – Draeniad Rhes Llundain Prenteg.

b Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad cychwynnol Cynllun Eryri (rhannwyd 6/8/18)
Gwahoddiad – nosweithiau Cynghorau Tref a Chymuned Hydref 2018

c Cyngor Iechyd Cymru – Gwella Cyfathrebu yn GIG

ch Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – canfyddiadau ac argymhellion amlinellol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymgynghoriad cefnogi a hybu'r
d Gymraeg – er gwybodaeth.

17 Cynllunio

Rhestrau 6/7, 13/7, 20/7, 20/8, 24/8/18. Ychwanegwyd rhestr 31/8/18.

Ceisiadau Cynllunio

Ychwanegwyd C18/0672/36/LL Codi sied amaethyddol Eisteddfa Uchaf, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd. LL52 0PT – dim gwrthwynebiad.

NP2/16/79R Codi swyddfa deulawr ac ystafell arddangos Parc Carafannau, Plas Aberdeunant, Prenteg. LL49 9Sr – dim gwrthwynebiad.

Ychwanegwyd NP2/16/L340F Tŷ'r Ysgol, Cwm Pennant, Garndolbenmaen. LL51 9AV Newidiadau i'r cynllun gwreiddiol – dim gwrthwynebiad.

C18/0588/36/LL Codi tŷ deulawr newydd ar gyfer gweithiwr amaethyddol Garneddhir, Golan, Garndolbenmaen. Derbyniwyd y dogfennau 6/7/18. Gyrrwyd at Gynghorwyr Golan a'r Cadeirydd. Dim gwrthwynebiad.

18 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Llyfrau Llafar Cymru, Marie Curie. Trafod yng nghyfarfod mis Chwefror 2019.

Monitro'r gyllideb – Taenlen misol. Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Gwirio'r llyfrau 1/7/18 – 30/9/18. Cyfarfod mis Hydref Cynghorwyr Bryncir.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 475.98	(Awst a Medi)
Ffôn	= £ 20.00	"
Cyfrifiadur	= £ 30.00	"
HMRC	= £ 118.80	"
Gwasg y Bwthyn	= £ 11.76	
A Hughes Jones, Dyson a'u Cwmni	= £ 360.00	
Dylan Edwards	= £1300.00	

Ychwanegwyd

Aled Jones	= £ 150.00
Cymru1	= £ 920.40

Derbyniadau – Pritchard & Griffiths £330.00, D J Roberts £135.00, Ymgymerwyr Paragon £220.00, W Peate £140.00, Cyngor Gwynedd £6000.
Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,781.33. Cyfredol - £10,466.10.

19 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Sbwriel Mynwent Bethel
- Arolwg Mynwent Bethel
- Ceisiadau cynllunio
- Safle We
- Bws Glandwyfach
- Llwybr cyhoeddus Ysgol Golan
- Sedd Wag.